# Arfer awdurdodau addysg lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg

**Mai 2007**

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **2**

**Prif ganfyddiadau** **6**

**Argymhellion** **7**

**Addysg ar wahân i yn yr ysgol** **8**

Darpariaeth awdurdod lleol 8

Darpariaeth nad yw'n ddarpariaeth awdurdod lleol 10

**Plant sydd ar goll o addysg** **12**

Pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn monitro disgyblion sydd ar goll o addysg? 13

**Casgliad** **15**

**Atodiad**

Gofynion y System Drosglwyddo Gyffredin

**Cyfeiriadau**

## Cyflwyniad

1 Mae’r adroddiad hwn yn disgrifio’r sefyllfa gyfredol ac mae’n rhoi cyngor ar arfer awdurdodau lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy’n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a’r rheiny sydd ar goll o addysg yn unol â’r cais am gyngor yng nghylch gorchwyl 2006-2007 i Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2 Mae’r adroddiad:

- yn nodi’r prif grwpiau o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy’n cael eu haddysgu mewn lleoedd ar wahân i ysgolion neu sydd ar goll o addysg;
- yn arfarnu effeithiolrwydd awdurdodau lleol wrth fonitro’r disgyblion hyn; ac
- yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella’r monitro gan awdurdodau lleol Cymru.

3 Cynhelir yr adroddiad yng nghyd-destun y cyfeiriad strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau, 2004 ac ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a gweithio partneriaeth gwell rhwng gwahanol sefydliadau lleol.

4 Mae sail dystiolaeth yr adroddiad yn defnyddio:

- adroddiad arolwg thematig Estyn ar unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg, a gyhoeddwyd yn 2004;
- adroddiadau cyhoeddedig ar arolygu awdurdodau addysg lleol;
- ystod eang o wybodaeth ystadegol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- ymatebion i holiadur manwl gan bob awdurdod lleol yng Nghymru;
- cyfarfodydd â swyddogion mewn awdurdodau lleol; ac
- adolygiad o lenyddiaeth berthnasol.

## Cefndir

5 Mae disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol neu sydd ar goll o addysg yn dod o dan dri chategori: maent mewn darpariaeth awdurdod lleol amgen, mewn darpariaeth nad yw'n ddarpariaeth awdurdod lleol neu maent 'ar goll o addysg'.

6 Mewn darpariaeth awdurdod lleol ar hyn o bryd, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn addysgu nifer fach o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol mewn lleoedd ar wahân i ysgolion.

7 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn cynnwys:

- unedau cyfeirio disgyblion cofrestredig;
- addysg gartref gan wasanaeth gwersi gartref yr awdurdod lleol;
- asiantaethau allanol fel y tîm troseddau ieuenctid, asiantaethau gwirfoddol neu ddarparwyr yn y gwaith; ac
- unedau cyfeirio disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru ac felly nid ydynt yn cael eu harolygu.

8 Ledled Cymru, mae'r categori o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sydd mewn darpariaeth nad yw'n cael ei rheoli gan yr awdurdod lleol, yn cynnwys disgyblion sydd:

- yn mynychu ysgolion annibynnol;
- yn cael eu haddysgu gartref gan eu rhieni, neu oedolion eraill sy'n cael eu cyflogi gan eu rhieni; ac
- yn y system 'gofelir amdanynt' ac sy'n cael eu haddysgu mewn cartrefi gofal preifat, sydd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ysgolion annibynnol.

9 Mae'r grŵp o ddisgyblion sydd ar goll o addysg wedi'u nodi yng nghylchlythyr 18/2006[1]. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion sydd:

- byth yn dechrau yn y system addysg oherwydd eu bod yn methu dechrau darpariaeth briodol ar ddechrau'r oed ysgol gorfodol;
- yn rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol, efallai oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd neu wedi tynnu'n ôl;

[1] Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif 18/2006, Mai 2006.

- wedi cael eu ‘gwahardd’ ar sail answyddogol a’u bod yn arbennig o agored i dynnu’n ôl o addysg yn barhaol;

- yn methu cwblhau cyfnod trosglwyddo rhwng darparwyr, er enghraifft, o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd neu o ysgol i ddarpariaeth arall;

- yn symud i ardal awdurdod lleol a ddim yn cofrestru gydag ysgol leol, nac yn rhoi gwybod i’r awdurdod lleol eu bod wedi symud;

- yn blant i rieni sy’n dewis addysgu gartref ac yn rhoi’r gorau i gael unrhyw gyswllt â’r awdurdod lleol;

- wedi’u gwahardd neu wedi tynnu’n ôl o ysgolion annibynnol; neu’n

- symud i’r wlad a ddim yn cofrestru gydag ysgol.

10 Y diffiniad cyffredin o’r term ‘ar goll o addysg’ yw, ‘plant o oed ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, nac yn cael eu haddysgu fel arall (e.e. yn breifat neu mewn darpariaeth arall) ac sydd wedi bod allan o ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol; cytunir fel arfer bod hyn yn bedair wythnos neu fwy’.[2]

11 Cytunir yn gyffredinol bod rhai plant sydd wedi profi digwyddiadau penodol yn eu bywyd mewn mwy o berygl o fynd ar goll o addysg (DfES 2004). Rhestrir y rhain yn nhabl 1.

[2] Identifying and Maintaining Contact with Children Missing or at Risk of Going Missing from Education, DfES 2004

**Tabl 1: Plant sydd mewn perygl o fynd ar goll o addysg**

| | |
|---|---|
| • triwantiaid parhaus;<br><br>• plant sy'n byw mewn llochesau i ferched;<br><br>• pobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd;<br><br>• plant sydd wedi tynnu'n ôl neu gael eu gwahardd o'r ysgol;<br><br>• triwantiaid parhaus;<br><br>• plant sy'n symud ar draws ffiniau awdurdod lleol;<br><br>• plant y gofelir amdanynt;<br><br>• mamau yn eu harddegau; a<br><br>• throseddwyr ifanc. | • plant sy'n cael eu cymryd ar wyliau estynedig neu ymweliadau treftadaeth gan eu teulu (yn enwedig yn bryder mewn awdurdodau lleol sydd â phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig uchel);<br><br>• plant sydd allan o addysg oherwydd salwch tymor hir;<br><br>• plant sydd allan o addysg oherwydd eu bod yn gofalu am aelodau teulu sy'n sâl;<br><br>• plant o deuluoedd digartref sydd efallai yn byw mewn llety dros dro, tai neu ddeiliadaeth luosog neu lety gwely a brecwast;<br><br>• ceiswyr lloches a ffoaduriaid heb gwmni neu blant teuluoedd sy'n geiswyr lloches; a<br><br>• phlant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n symud yn aml (gan gynnwys plant teithwyr). |

12 Yng Nghymru, ar hyn o bryd, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd bod disgyblion yn dod o dan y categori ar goll o addysg, mae gofyniad o dan Reoliadau Addysg Cymru (Gwybodaeth am Ddisgyblion) 2004 a Rheoliadau Addysg (Cofnodion Ysgol) 1989 i ysgolion gynnal data ar ddisgyblion nad ydynt ar eu cofrestr ac i roi'r data i'r ysgol sy'n derbyn y plentyn pan fydd yn gadael.

13 Rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ddefnyddio'r System Drosglwyddo Gyffredin (SDG) ar gyfer Cymru a Lloegr i drosglwyddo gwybodaeth benodol yn electronig, trwy'r wefan 'school 2 school'[3] pan fydd disgybl yn newid ysgol. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwybodaeth benodol yn cael ei throsglwyddo yn awtomatig pan fydd disgybl yn newid ysgol. Mae prif ofynion y SDG wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

14 Pan fydd disgybl wedi gadael ysgol heb roi gwybod pa ysgol y bydd yn mynd iddi, mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol wneud eu gorau i ganfod ei gyrchfan. Os nad yw ysgol yn gwybod cyrchfan disgybl, anfonir Ffeil System Drosglwyddo Gyffredin i'r Gronfa Ddata o Ddisgyblion Coll, sef man chwilio ar y wefan 'school 2 school' sy'n cynnwys Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin (FfTC) disgyblion y mae ansicrwydd ynghylch eu hysgol gyrchfan. Pan fydd disgybl yn cyrraedd ysgol, rhaid i

[3] www.teachernet.gov.uk/s2s

ysgolion ac awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i gael y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin hyd yn oed pan fydd ansicrwydd ynghylch ysgol flaenorol y disgybl.

15 Nod y System Drosglwyddo Gyffredin yn y bôn yw gwneud yn siŵr bod Ffeil Drosglwyddo Gyffredin yn mynd gyda disgybl pryd bynnag y bydd yn ymuno ag ysgol o ysgol arall yng Nghymru neu yn Lloegr. I ddisgyblion sy’n ymuno ag ysgol o’r tu allan i’r gwledydd hyn, bydd rhif disgybl unigryw (RhDU) a ffeil newydd yn cael eu creu.

16 Erbyn mis Medi 2007, bydd yn ofynnol i ysgolion uwchradd yng Nghymru a’r ysgolion cynradd sy’n eu bwydo, lunio Cynllun Trosglwyddo ar y cyd sy’n amlinellu trefniadau i ddarparu parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion sy’n symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Mae’r System Drosglwyddo Gyffredin yn darparu un o’r blociau adeiladu allweddol ar gyfer trosglwyddo effeithiol. Bydd Cynlluniau Trosglwyddo yn pennu fframwaith i ysgolion weithio gyda’i gilydd i ystyried sut gallant wneud y defnydd gorau o’r wybodaeth am ddisgyblion a ddarparwyd gan y System Drosglwyddo Gyffredin i wella ansawdd addysgu a dysgu. Bydd arweiniad ar wahân yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad ar lunio, cynnwys ac adolygu Cynlluniau Trosglwyddo.

17 Nid yw ysgolion, colegau a darparwyr eraill bob amser yn cael gwybodaeth gywir ac amserol am gyflawniadau blaenorol dysgwyr. Weithiau, nid ydynt yn cael unrhyw wybodaeth o gwbl oherwydd bod ysgolion ac awdurdodau yn methu olrhain y dysgwr. Mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd lle mae dysgwyr yn symud yn aml, ac mae hyn yn effeithio’n benodol ar rai o’r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sydd wedi’u gwahardd, plant y gofelir amdanynt, troseddwyr ifanc a dysgwyr anabl.

## Prif ganfyddiadau

18 Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cadw data cywir ar ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r lleoliad ysgol mewn darpariaeth awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion cofrestredig, unedau anghofrestredig a disgyblion sy'n cael gwersi gartref.

19 Mae dryswch mewn rhai awdurdodau lleol o ran pa fath o ddarpariaeth ddylai gael ei chofrestru â Llywodraeth Cynulliad Cymru fel uned cyfeirio disgyblion. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i gynnal unedau anghofrestredig sy'n addysgu disgyblion o oed ysgol gorfodol er gwaethaf argymhellion blaenorol[4] y dylai'r unedau hyn gael eu cofrestru â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

20 Mae rhai awdurdodau lleol yn trefnu eu darpariaeth gwersi gartref ar sail ranbarthol. Mae'r awdurdodau hyn yn darparu 'gwersi gartref' mewn canolfannau rhanbarthol ac mae'r disgyblion yn teithio i'r canolfannau hyn o'u cartrefi. Pan fydd y trefniant hwn ar waith, mae'r canolfannau hyn yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o unedau cyfeirio disgyblion, er mai ychydig iawn ohonynt sydd wedi cofrestru fel y cyfryw.

21 Nid yw rhai disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn unedau anghofrestredig ar gofrestr unrhyw ysgol na choleg, ac felly gellir tybio eu bod ar goll o addysg.

22 Nid yw data ar ddisgyblion sydd ar goll o addysg mor gyflawn ag y dylai fod. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ceisio cynnal data cywir ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion sy'n agored i niwed, nid yw'n cael ei rannu rhwng adrannau awdurdod lleol neu gydag awdurdodau lleol eraill.

23 Lle mae asiantaethau sy'n cynrychioli addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, mae'n llai tebygol y gall disgyblion fynd ar goll o addysg ac mae'n llawer mwy tebygol bod y rheiny nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn cael eu nodi yn gynnar.

24 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol naill ai swyddog dynodedig sy'n cael gwybodaeth am blant sydd ar goll o addysg neu weinyddwr cronfa ddata penodedig i gofnodi trosglwyddiadau ar gyfer 'school 2 school' – sef y system ar gyfer trosglwyddo ffeiliau trosglwyddo cyffredin yn electronig.

[4] Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg: Estyn, 2004

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 roi arweiniad clir i awdurdodau lleol am y mathau o ddarpariaeth y mae'n ofynnol i'w cofrestru;

A2 gorfodi'r gofyniad i awdurdodau lleol gofrestru pob safle lle maent yn cynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion o oed ysgol ar wahân i ysgolion prif ffrwd, arbennig neu feithrin ac i ddarparu gwybodaeth flynyddol am newidiadau i'r ddarpariaeth hon; a

A3 rhoi gwybodaeth flynyddol i Estyn am yr holl safleoedd y mae awdurdodau lleol yn eu cofrestru.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 gofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru pob safle lle maent yn cynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion o oed ysgol ar wahân i'r rheiny sydd mewn ysgolion prif ffrwd, arbennig neu feithrin;

A5 rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gofrestredig bob blwyddyn;

A6 gofyn am weithio agosach rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a gweithwyr iechyd i nodi plant nad ydynt yn mynychu ysgolion neu ddarpariaeth addysgol arall sydd wedi'i chymeradwyo;

A7 sicrhau bod swyddog penodedig yn gyfrifol am gronfa ddata o'r holl ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu ar wahân i yn yr ysgol ac ar gyfer y rheiny sydd ar goll o addysg;

A8 parhau i olrhain plant o oed ysgol sy'n byw o fewn yr awdurdod ond nad ydynt bellach wedi'u cofrestru gyda darparwr awdurdod lleol a monitro eu cynnydd;

A9 mewn ardaloedd lle mae plant yn aml yn teithio y tu allan i'r awdurdod lleol i fynychu ysgolion, neu lle mae mudiad tymhorol sefydledig o deuluoedd, gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol dan sylw i olrhain y disgyblion hyn; a

A10 monitro'n fwy trylwyr gynnydd disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn cartrefi gofal annibynnol sydd wedi'u cofrestru fel ysgolion.

**Dylai ysgolion:**

A11 sicrhau eu bod yn cymdymffurfio â gofynion Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004.

## Addysg ar wahân i yn yr ysgol

### Darpariaeth awdurdod lleol

25 Ym mhob awdurdod yng Nghymru, caiff disgyblion o oed ysgol gorfodol eu haddysgu mewn lleoedd ar wahân i mewn ysgolion. Mae'r grŵp hwn o ddisgyblion bron bob amser yn cynnwys y plant sydd fwyaf dan anfantais a mwyaf agored i niwed yn y wlad.

26 Caiff disgyblion eu haddysgu mewn lleoedd ar wahân i ysgolion am amrywiaeth o resymau. Gall y rhain gynnwys:

- disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd naill ai yn barhaol neu dros dro;
- y disgyblion hynny y tybir eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd;
- disgyblion â phroblemau iechyd meddwl tymor hir gan gynnwys y rheiny ag anawsterau sy'n gysylltiedig â salwch meddwl a gofid;
- y rhai sydd wedi'u dadrithio;
- disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac ymddygiad; a'r
- rheiny sy'n feichiog neu'n rhieni ifanc.

27 Mae awdurdodau lleol yn darparu addysg ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- mewn unedau cyfeirio disgyblion cofrestredig;
- mewn unedau anghofrestredig;
- trwy leoliadau mewn colegau addysg bellach;
- trwy addysgu disgyblion yn eu cartrefi eu hunain ('gwersi gartref'); ac
- yng nghyfnod allweddol 4, trwy ddefnyddio darparwyr dysgu yn y gwaith neu asiantaethau gwirfoddol fel Include sy'n rhoi cymysgedd o addysgu ffurfiol ac addysg alwedigaethol i'r disgyblion hyn.

28 I rai disgyblion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid, gallai addysg gael ei darparu gan y tîm troseddau ieuenctid.

#### Monitro darpariaeth awdurdod lleol

29 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro lleoliad plant sy'n cael eu haddysgu mewn darpariaeth awdurdod lleol gofrestredig yn effeithiol. Maent yn cynnal data

diogel ar ddisgyblion unigol a gallant ddweud gyda sicrwydd ymhle mae'r disgybl yn cael ei addysgu ar unrhyw adeg benodol. Mae'r monitro hwn yn arbennig o effeithiol pan fydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn uned cyfeirio disgyblion gofrestredig.

30 Pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn unedau anghofrestredig, lle mae'r meini prawf derbyn efallai yn llai ffurfiol, mae'r broses o fonitro disgyblion unigol yn llai sicr. Ychydig iawn o'r awdurdodau y gwnaed arolwg ohonynt sy'n gallu dangos eu bod yn darparu'r hawl lawn o 25 awr o addysg wythnosol ar gyfer y disgyblion hyn. O ganlyniad, i rai disgyblion, lleoliad uned rhan-amser yw'r unig ddarpariaeth addysgol. I rai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, mae darpariaeth ran-amser mewn uned yn rhan o raglen cwricwlwm amgen a allai hefyd gynnwys gweithgareddau hamdden, coleg neu waith. Lleiafrif o awdurdodau lleol yn unig sy'n monitro ansawdd y lleoliadau amgen hyn, neu bresenoldeb disgyblion, yn effeithiol.

31 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos dwy enghraifft nodweddiadol o'r modd y mae awdurdodau lleol Cymru wedi trefnu eu darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

**Astudiaeth achos**

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos y modd y mae un awdurdod lleol wedi datblygu cymysgedd o ddarpariaeth gofrestredig a darpariaeth anghofrestredig**

**Mae Awdurdod lleol A**

yn cynnal tair uned cyfeirio disgyblion gofrestredig lle mae 120 o ddisgyblion yn cael addysg naill ai ar sail amser llawn neu ar sail ran-amser. Mae'r un awdurdod hefyd yn cynnal darpariaeth ar ddeg safle arall. Nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cofrestru â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dros 300 o ddisgyblion, yn CA4 yn bennaf, yn cael addysg yn y safleoedd hyn naill ai ar sail amser llawn, neu'n llai cyffredin, ar sail ran-amser.

**Mae Awdurdod Lleol B**

yn cynnal dwy uned anghofrestredig sy'n darparu ar gyfer bron i 60 o ddisgyblion. Nid oes unrhyw un o'r disgyblion hyn wedi'u cofrestru ag ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Cyflogir y rhan fwyaf o'r staff ar sail sesiwn ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r athro sy'n gyfrifol gynnal parhad yn y ddarpariaeth.

32 Argymhellod adroddiad 2004 Estyn ar yr 'Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth debyg' y dylai awdurdodau lleol gofrestru unrhyw unedau anghofrestredig. Ychydig iawn o'r unedau anghofrestredig a nodwyd yn 2004 sydd wedi cael eu cofrestru o ganlyniad. Mae nifer uchel o unedau anghofrestredig ledled Cymru o hyd.

33 Yn 2004, adroddodd Estyn mai anaml y caiff cyraeddiadau a chyflawniadau'r disgyblion hyn sy'n agored i niwed eu cynnwys mewn arfarniadau o ddarpariaeth ysgol. Mae canfyddiadau arolygiadau a gwaith arolwg dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos mai ychydig iawn o newid a fu yn y sefyllfa er 2004.

34 Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn monitro disgyblion sy'n cael eu 'dysgu gartref' yn dda. Mae swyddog dynodedig yn gyfrifol am addysg y disgyblion hyn, sy'n gyffredinol yn aros ar gofrestr eu hysgol flaenorol gyda'r bwriad naill ai o ddychwelyd yno neu symud ymlaen i ddarpariaeth awdurdod lleol arall.

## Darpariaeth nad yw'n ddarpariaeth awdurdod lleol

### Disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref

35 Ychydig iawn o ddweud a gaiff awdurdodau lleol yn addysg y disgyblion hynny y mae eu rhieni yn dewis addysgu eu plant gartref.

36 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnal cyswllt rheolaidd â rhieni'r plant hyn. Maent yn monitro cynnydd y plant ac weithiau'n rhoi cyngor i rieni ar yr hyn y mae angen ei addysgu.

37 Nid yw rhai awdurdodau lleol yn cadw data llawn ar ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref. Er nad ydynt efallai'n gwybod nifer y plant yn eu hawdurdod sy'n cael eu haddysgu gartref, ychydig iawn o gyswllt os o gwbl a geir gyda rhieni'r disgyblion hynny. Nid yw'r awdurdodau lleol hyn yn gallu dweud, gydag unrhyw sicrwydd, a ydynt yn cael addysg briodol.

38 Er y gall plant a phobl ifanc â datganiadau o anghenion addysgol arbennig gael eu haddysgu gartref, mae'r AALl yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr addysg a gaiff y plentyn yn addas. Roedd pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol trwy adolygu'n rheolaidd a yw gofynion y datganiad yn cael eu cyflawni.

39 Mae'r datganiad yn aros mewn grym o dan yr amgylchiadau hyn a rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rhieni yn gallu gwneud darpariaeth addas, gan gynnwys darparu ar gyfer anghenion addysgol eu plentyn. Os yw trefniadau'r rheini yn addas, caiff yr awdurdod lleol ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth yn uniongyrchol, ond dyletswydd yr awdurdod lleol o hyd yw sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu bodloni.

40 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae tystiolaeth anecdotaidd gref fod nifer fach o ysgolion wedi annog rhieni'r rhai nad ydynt yn mynychu yn barhaus i ddewis 'addysg gartref' er mwyn cael gwared ar ddisgybl trafferthus oddi ar gofrestr yr ysgol.

### Disgyblion mewn ysgolion annibynnol

41 Caiff nifer fach o ddisgyblion a ariennir gan awdurdod lleol eu haddysgu mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru. Fel arfer, mae gan y disgyblion hyn ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig neu maent yn blant y gofelir amdanynt.

42 Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a ariennir gan awdurdodau lleol yn cynnwys rhai o'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae angen lefelau eithriadol uchel o gymorth ar lawer o'r disgyblion hyn, a chânt eu haddysgu mewn darpariaeth sy'n hynod ddrud ac yn aml ymhell o'u hawdurdod cartref.

43 Mae awdurdodau lleol yn monitro'r disgyblion hyn yn dda ac maent yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o wasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd a allai rannu'r cyfrifoldeb am ariannu'r lleoliadau hyn.

44 Mae'r sefyllfa yn llai eglur ar gyfer plant y gofelir amdanynt mewn cartrefi plant preifat. Mae bellach yn ofynnol i gartrefi plant bach sy'n addysgu'r plant ar y safle gofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ysgolion annibynnol. Mae arolygiadau ac ymweliadau Estyn â'r math hwn o ddarpariaeth yn dangos nad yw llawer o'r disgyblion hyn yn cael eu hawl o 25 awr o addysg yr wythnos. Ychydig iawn o fonitro eu cynnydd a wneir gan eu 'hawdurdod cartref' ac ychydig iawn o wybodaeth am hanes a chyflawniadau addysgol y disgyblion hyn sy'n cael ei throsglwyddo i ysgolion newydd pan fyddant yn dechrau.

45 Yn gyffredinol, pan fydd gan ddisgyblion mewn cartrefi plant preifat ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, mae monitro yn fwy effeithiol ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adolygu'r datganiadau yn flynyddol fel sydd angen.

## Plant sydd ar goll o addysg

46 Efallai y bydd y grŵp hwn o blant nid yn unig mewn perygl yn addysgol, o ran y ffaith nad ydynt yn cael yr addysg a gaiff plant eraill o'u hoedran hwn, ond gallai eu diogelwch a'u lles fod mewn perygl hefyd.

47 Ni ddylai plant sy'n cael eu gwahardd o ysgolion golli allan ar addysg. Dylai'r disgyblion hynny sy'n cael eu gwahardd am gyfnod penodol ddychwelyd i'w hysgol ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu addysg ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol.

48 Mae rhai ysgolion yn ymgymryd â'r hyn y gellir ei alw'n gyffredinol yn 'waharddiadau answyddogol'. Yn yr arfer hon, caiff rhieni disgyblion trafferthus eu hannog gan yr ysgol i gadw eu plant gartref er mwyn osgoi gwaharddiad swyddogol. Nid oes sail swyddogol ar gyfer y math hwn o waharddiad. Dylai'r awdurdod lleol herio'r arfer hon, lle bo'n digwydd.

49 Yn ogystal â'r plant a nodwyd yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, mae rhai plant ar goll o addysg oherwydd eu bod wedi dioddef troseddau, fel cael eu cipio gan riant neu ddieithryn. Ar ôl cyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at lofruddio Victoria Climbie ym mis Chwefror 2000, fe wnaeth yr Arglwydd Laming, Cadeirydd yr Ymchwiliad Statudol Annibynnol, roi sylwadau ar ganfyddiad Ofsted bod 10,000 o blant ar goll o addysg yn Lloegr:

> "Ble maen nhw? Faint ohonyn nhw oedd o'ch awdurdod chi? Gall unrhyw un gredu bod peidio â bod ar gofrestr ysgol hyd yn oed, ac felly ddim yn cael cyfle i gael addysg, yn debygol o gynorthwyo datblygiad pob un o'r bobl ifanc hyn i fod yn ddinesydd cyflawn? Rwy'n amau hynny rywsut."
> Yr Arglwydd Laming mewn araith yng Nghynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol 2003[5]

50 O ganlyniad i ymchwiliad Victoria Climbie, gosodwyd gofyniad am fwy o weithio amlasiantaethol ar bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant. Cytunwyd y dylai asiantaethau gael systemau, gweithdrefnau ac arferion ar waith i sicrhau diogelwch plant.

51 Yn yr un araith, gwrthododd Lord Laming y syniad o 'asiantaeth arwain' wrth hyrwyddo datblygiad priodol plentyn. Galwodd ar i bob asiantaeth a allai fod â rôl arwyddocaol ym mywyd plentyn weithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant.

52 Mae asiantaethau partner perthnasol yn cynnwys:

- addysg;
- gofal cymdeithasol plant;

---

[5] Yr Arglwydd Laming, araith yng Nghynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol 2003: http://www.adss.org.uk/events/2003/laming.shtml

- iechyd;
- yr heddlu;
- gwasanaeth troseddau ieuenctid; a
- thai.

**Pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn monitro disgyblion sydd ar goll o addysg?**

53 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i bennu, cyhyd ag y bo'n bosibl, enwau'r plant yn eu hardal nad ydynt yn cael addysg addas. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r plant hynny o oed ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr yr ysgol ac nad ydynt yn cael darpariaeth addas amgen.[6]

54 Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i blant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol ond nad ydynt yn mynychu yn rheolaidd. Mae gan ysgolion ddyletswydd eisoes i fonitro presenoldeb trwy gofrestru.

55 Nid oes gweithdrefn na phroses gyffredin ledled Cymru i awdurdodau lleol fonitro lleoliad plant sydd ar goll o addysg.

56 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru swyddog penodedig sy'n cymryd cyfrifoldeb am blant sydd ar goll o addysg. Mae'r person hwn fel arfer yn cyfuno'r rôl hon â dyletswyddau eraill, bob amser yn y Gwasanaeth Lles Addysg, Addysg Ar Wahân i yn yr Ysgol, neu'r gwasanaethau Cynhwysiad.

57 Nid oedd bron i chwarter yr awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt yn gallu adnabod, gydag unrhyw sicrwydd, y swyddog penodedig sy'n gyfrifol am blant sydd ar goll o addysg.

58 Mae faint o amser sydd ar gael i gyflawni'r rôl yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai awdurdodau lleol, ceir amser dynodedig i swyddogion gyflawni eu dyletswyddau. Mewn awdurdodau lleol eraill, disgwylir i swyddogion gyflawni'r rôl hon pan fydd amser yn caniatáu, yn ogystal â'u dyletswyddau eraill.

59 Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill a chydag awdurdodau lleol eraill. Mae gweithwyr proffesiynol o bob disgyblaeth yn gweithio gyda'i gilydd i nodi plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol neu fathau eraill o addysg, ac maent yn cymryd camau cadarnhaol i ennyn diddordeb y plant hynny mewn dysgu. Efallai y bydd teuluoedd nad ydynt yn gwneud eu hunain yn hysbys i ysgolion nac adrannau addysg, yn galw ar wasanaethau'r awdurdod iechyd lleol, yr adran gwasanaethau cymdeithasol neu efallai y bydd yr heddlu yn gwybod amdanynt. Gallai'r asiantaethau eraill hyn gadw gwybodaeth am y plant hyn.

---

[6] Mae'r Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygiad Cofrestru) (S.I. 1997/2624), Rheoliad 9(1)(g) yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wneud 'ymholiadau rhesymol' i leoli disgyblion sydd wedi bod yn absennol am 4 wythnos neu fwy cyn y gellir dileu eu henwau oddi ar gofrestr yr ysgol

60 Mae'r 'Gronfa Ddata Disgyblion Coll' yn faes o wefan School to School (s2s)[7] y gellir chwilio ynddi sy'n cynnwys Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin disgyblion lle nad yw'r ysgol y mae'r disgybl yn ei gadael yn gwybod cyrchfan (neu ysgol nesaf) y disgybl. Diben y gronfa ddata yw galluogi awdurdodau lleol i nodi disgyblion y mae eu cyrchfan yn anhysbys pan fyddant yn gadael ysgol a gynhelir ganddynt. Mae'r gronfa ddata hon yn gyfleuster lle gall awdurdod lleol, pan gaiff gais gan ysgol sydd newydd gofrestru disgybl ond nad yw'n gallu nodi'r ysgol flaenorol, ofyn am Ffeil Drosglwyddo Gyffredin. Gall y cyfleuster chwilio am Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y gallai ysgol flaenorol fod wedi'i 'chofnodi' yno.

61 Mae'r modd y caiff y gronfa ddata hon ei defnyddio gan awdurdodau lleol yn amrywio ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gronfa ddata ac maent yn ei defnyddio pan fydd angen. Nid yw lleiafrif bach o awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyfleuster chwilio hwn ac nid ydynt yn ymwybodol o'i fodolaeth.

62 Mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu eu cronfeydd data eu hunain o blant sydd ar goll o addysg. Nid yw cronfeydd data asiantaeth unigol naill ai'n cael eu rhannu o gwbl neu nid ydynt yn cael eu rhannu'n llawn. Gallai gwahanol randdeiliaid fod yn olrhain ac yn monitro llawer o'r un plant at wahanol ddibenion.

63 Mae gan bob awdurdod lleol weithdrefnau i olrhain plant sy'n colli addysg. Mae effeithiolrwydd y gweithdrefnau hynny yn dibynnu ar ba mor rhagweithiol yw'r awdurdod lleol wrth eu gweithredu.

64 Mae'r gweithdrefnau mwyaf effeithiol yn cynnwys swyddogion yn chwilio'n weithredol am blant y maent yn amau eu bod ar goll o addysg; maent yn gwirio cofrestri ysgolion ac yn gwneud yn siŵr bod esboniad am bob un o'r disgyblion. Mae swyddogion awdurdod lleol hefyd yn ymweld â chartrefi plant yr ystyrir eu bod mewn perygl o fynd ar goll o addysg ac maent yn datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain disgyblion sy'n symud allan o'r awdurdod, neu i mewn iddo. Trwy wneud hyn, maent yn gweithio'n agos â phartneriaid o asiantaethau eraill ac awdurdodau lleol eraill. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i gyflawni'r agwedd hon ar eu gwaith yn dda.

[7] www.teachernet.gov.uk/s2s

## Casgliad

65 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn monitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu ar wahân i yn yr ysgol yn dda pan fydd disgyblion mewn darpariaeth a reolir gan yr awdurdod lleol. Gwneir hyn yn well mewn unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru na mewn unedau anghofrestredig.

66 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i addysgu disgyblion mewn darpariaeth nad yw wedi cael ei chofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dryswch mewn rhai awdurdodau lleol ynghylch beth yw uned cyfeirio disgyblion a pha fath o ddarpariaeth y dylid ei chofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel uned cyfeirio disgyblion.

67 Nid oes proses systematig ledled Cymru i nodi plant sy'n mynd ar goll o addysg a rhoi adnoddau priodol ar waith i'w cefnogi.

68 Plant sy'n agored i niwed sydd fwyaf mewn perygl o fynd ar goll a bydd angen i awdurdodau lleol roi sylw penodol i'r plant hyn yn enwedig pan fyddant yn symud i awdurdod lleol neu ohono.

69 Nid yw rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio cronfeydd data cenedlaethol mor effeithiol ag y gallent i olrhain plant sydd ar goll o addysg.

70 Er mwyn lleoli plant sydd ar goll o addysg mewn awdurdod lleol, mae angen cael rhwydwaith o asiantaethau sy'n gallu rhannu gwybodaeth. Mae'n llawer mwy effeithiol dod o hyd i'r plant hyn pan fydd asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

# Atodiad

## Gofynion y System Drosglwyddo Gyffredin

Gwybodaeth y  mae'n **rhaid** ei darparu ar ffurf electronig:

**Manylion am yr ysgol**

- anfon rhif AALl yr ysgol a'r sefydliad;
- anfon rhif sefydliad yr ysgol;
- cael rhif AALl yr ysgol;
- cael rhif sefydliad yr ysgol;
- hanes ysgol y disgybl (os yw ar gael).

**Manylion am y disgybl**

- Rhif Disgybl Unigryw;
- cyfenw;
- enw cyntaf;
- dyddiad geni;
- rhyw;
- cod ethnig;
- ffynhonnell cod ethnig;
- hunaniaeth genedlaethol;
- gallu yn y Gymraeg;
- darpariaeth AAA;
- cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim;
- cymhwyster i gael llaeth am ddim;
- dangosydd mewn gofal;
- y cyfeiriad lle mae'r disgybl yn byw fel arfer;
- cyfenw o leiaf un person cyswllt a manylion ei berthynas â'r disgybl; a
- dangosydd lle mae gwybodaeth feddygol yn bodoli a allai fod yn berthnasol i ysgol newydd y disgybl.

**Data presenoldeb – ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol neu ddiweddaraf (cewch gynnwys hanes presenoldeb os yw ar gael)**

- Blwyddyn ysgol;
- nifer y sesiynau posibl (hanner diwrnodau);
- nifer y sesiynau a fynychwyd;
- nifer yr absenoldebau awdurdodedig; a
- nifer yr absenoldebau anawdurdodedig.

**Cyfnod Allweddol 1, 2, 3**

- Lefelau'r asesiad athro diweddaraf.

**Cofnod addysgol**

Dylid hefyd anfon cofnod addysgol y disgybl i'r ysgol sy'n ei dderbyn, tra bo'n rhaid anfon gwybodaeth drosglwyddo gyffredin mewn fformat peiriant darllenadwy yn unig drwy wefan ddiogel s2s. Gellir trosglwyddo cofnod addysgol disgybl mewn fformat peiriant darllenadwy, ar bapur neu mewn cyfuniad o'r ddau.

**Beth yw'r cyfyngiadau amser ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth?**

Rhaid anfon cofnodion addysgol a/neu wybodaeth drosglwyddo gyffredin i'r ysgol newydd ymhen pymtheg diwrnod ysgol o'r disgybl yn peidio â chael ei gofrestru yn yr ysgol flaenorol.

Yn yr un modd, os yw pennaeth yr ysgol flaenorol yn cael cais gan bennaeth yr ysgol lle bydd y disgybl newydd yn cael ei gofrestru, rhaid anfon y wybodaeth ymhen pymtheg diwrnod ysgol o dderbyn y cais.

## Cyfeiriadau

**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006:** Estyn, Ionawr 2007

**Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2004

**Children Missing Education: Experiences of Implementing the DfES Guidelines:** Griggs, Payne a Bhabra, DfES, 2006.

**Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif. 18/2006, Mai 2006.

**Arweiniad ar arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion:** Estyn, Medi 2004

**Identifying and Maintaining Contact with Children Missing or At Risk of Going Missing from Education:** DfES, 2004.

**Yr Arglwydd Laming, araith yng Nghynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol 2003:** http://www.adss.org.uk/events/2003/laming.shtml

**Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith:** Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2006

**The Role of the School in Supporting the Education of Children in Public Care:** Adroddiad Ymchwil RR498 Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg/Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2006

**Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg:** Estyn, 2004.